Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg

**Llanfair Llythynwg**
**Ceintun**
**Swydd Henffordd**
**HR5 3NR**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 40 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 36 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 13.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 02/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/12/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Llanfair Llythynwg yn gymuned ddysgu hapus a ffyniannus. Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da fel dysgwyr, ac yn eu datblygiad cyffredinol o fewn ethos anogol yr ysgol. Maent yn falch o'u hysgol a'u cyflawniadau. Mae eu hymddygiad yn rhagorol ac maent yn dangos gofal a pharch eithriadol o dda at ei gilydd. Caiff disgyblion lefel dda o ddylanwad ar fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy greu a gweithredu rheolau'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ac yn defnyddio'u medrau llythrennedd, Cymraeg, rhifedd a'u medrau digidol yn dda, ac maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol ac yn frwdfrydig ar draws yr ystod eang o brofiadau dysgu.

Mae athrawon yn gweithio'n dda fel tîm ac yn dangos ymrwymiad cryf i flaenoriaethau gwella'r ysgol, er enghraifft trwy ddatblygu eu medrau Cymraeg i'w galluogi i weithio'n fwy effeithiol gyda disgyblion. Maent yn sefydlu ac yn cynnal perthnasoedd gofalgar, ymddiriedus a pharchus gyda disgyblion. Maent yn deall ac yn diwallu anghenion disgyblion yn dda trwy wersi difyr, cwricwlwm eang a chytbwys a chymorth pwrpasol, pan fydd angen. At ei gilydd, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd disgyblion ac maent yn cynllunio dilyniannau o wersi'n dda i gynnwys lefelau priodol o gymorth a her. Yn aml, mae athrawon yn defnyddio holi ac adborth yn llwyddiannus i symud dysgu ymlaen, yn enwedig yn y dosbarth ar gyfer disgyblion hŷn. Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion iau yn yr ysgol yn datblygu llawer o'u medrau yn briodol. Fodd bynnag, mae oedolion yn tueddu i strwythuro ac arwain y rhan fwyaf o weithgareddau. Nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain neu ddysgu trwy chwarae pan fyddant dan do neu'r tu allan. Mae arweinwyr yr ysgol yn ymwybodol o hyn.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol. Mae hi'n deall yn dda iawn anghenion y disgyblion, y staff a'r gymuned sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol. Mae hi wedi datblygu diwylliant pwerus o gydweithio o fewn yr ysgol a thu hwnt, sy'n sicrhau bod yr ysgol yn diwallu'r anghenion hyn. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithio mewn cytundeb cydweithio gydag ysgol gynradd leol arall. Mae'r pennaeth yn arwain y ddwy ysgol. Mae hyn, wedi'i gyfuno â gwaith effeithiol gyda'r clwstwr lleol o ysgolion a'r partneriaethau hynod fuddiol â rhieni ac amrywiaeth o sefydliadau allanol, yn cynnig llawer o fanteision. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo'r ysgol i ymestyn ystod y profiadau a ddarperir ar gyfer disgyblion ac yn galluogi staff i weithio'n gynhyrchiol gyda chydweithwyr proffesiynol.

Mae'r pennaeth, mewn partneriaeth â disgyblion, staff, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol, yn cynnal ffocws clir ar wella'r ysgol yn barhaus. At ei gilydd, mae'n sicrhau bod yr ysgol yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ar yr adeg gywir. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae gwaith yr ysgol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion iau yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion iau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau siarad da ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol, er enghraifft wrth gyflwyno'u dehongliadau o chwedlau Cymraeg enwog o'r Mabinogi. Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau. O oedran ifanc iawn, maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau a storïau ac yn datblygu medrau darllen cynnar effeithiol. Mae disgyblion hŷn yn darllen yn dda iawn â hyder, rhuglder a dealltwriaeth. Maent yn canfod ystyr geiriau heriol gan ddefnyddio cliwiau cyd-destunol ac yn casglu ystyr cudd o'r testun yn effeithiol. Maent hefyd yn defnyddio nodweddion llyfrau, fel y broliant, i benderfynu p'un a yw llyfr yn cynnwys stori y byddent hoffi ei darllen, efallai. Maent yn defnyddio'u medrau darllen yn dda i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft i ddadansoddi rhinweddau gwahanol gymeriadau yn The Jungle Book.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn addasu chwedlau traddodiadol yn llwyddiannus i greu eu storïau eu hunain a pharatoi rhestrau ar gyfer ryseitiau. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o strwythur gwahanol fathau o ysgrifennu, fel rhestrau a chyfarwyddiadau. Maent yn cyflwyno'u gwaith yn briodol ac yn defnyddio'u dealltwriaeth o seiniau yn dda i'w helpu i sillafu geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n dda, gyda soffistigeiddrwydd cynyddol. Er enghraifft, maent yn archwilio themâu, fel mudo, o wahanol safbwyntiau gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa briodol. Maent yn trefnu eu gwaith yn dda, yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn defnyddio atalnodi'n briodol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg ac maent yn gwneud cynnydd da. Maent yn defnyddio ystod o batrymau brawddeg a geirfa, er enghraifft wrth drafod beth maent yn ei hoffi am eu llyfr darllen presennol. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o'u gweithgareddau dysgu o oedran ifanc. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn dysgu'r enwau Cymraeg am siapiau dau ddimensiwn mewn sesiynau mathemateg.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau mathemategol. Mae disgyblion iau yn dysgu am sut mae rhifau'n bondio i wneud cyfansymiau, maent yn cyflwyno brawddegau rhif ac yn datblygu strategaethau addas i adio a thynnu. Mae disgyblion hŷn yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o werth lle ac yn defnyddio pedair rheol rhif yn dda. Maent yn cymhwyso fformiwlâu sylfaenol yn effeithiol, er enghraifft i ddatrys problemau wrth gyfrifo arwynebedd a pherimedr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft i gyflwyno a dadansoddi data am nodweddion teithwyr ar HMT Empire Windrush.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn effeithiol i gefnogi a chyflwyno'u dysgu. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn dysgu cadw ac adalw eu gwaith yn effeithlon ac yn defnyddio nodweddion apiau a meddalwedd â mwy o hyder ac annibyniaeth, er enghraifft i greu cod, cronfeydd data a chreu cyflwyniadau am eu gwaith testun.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ddefnyddiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn dysgu sut i gynnal arbrofion yn eu gwaith gwyddoniaeth a sut i gofnodi, dadansoddi a chyflwyno'u canfyddiadau. Yn ychwanegol, maent yn datblygu eu medrau mynegiannol a chreadigol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cael cyflwyniad i amrywiaeth o offerynnau cerddorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol mewn gwersi addysg gorfforol a chlybiau allgyrsiol cynlluniedig. Fodd bynnag, oherwydd y ddarpariaeth bresennol, nid yw disgyblion iau bob amser yn cael cyfleoedd i ddatblygu a defnyddio'u medrau corfforol fel rhan naturiol o'u dysgu.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn ffynnu o fewn ei hethos anogol. Mae safonau ymddygiad yn rhagorol ac mae disgyblion yn dangos gofal ac empathi eithriadol o dda at ei gilydd. Mae disgyblion yn ymddiried mewn oedolion ac yn eu parchu. Maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd ganddynt ac yn rhoi cymorth iddynt, pan fydd angen.

Mae cyfraddau presenoldeb yn uchel, ac mae disgyblion yn ymgymryd â phrofiadau dysgu yn frwdfrydig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymdawelu'n gyflym i wneud tasgau, ac yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau priodol i gwblhau eu gwaith. Maent yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion, er enghraifft i greu barddoniaeth neu gyflwyniadau digidol. Maent hefyd yn rhoi cymorth gwerthfawr i'w gilydd yn ystod gweithgareddau dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn dda i adborth, yn enwedig pan fyddant yn ei gael yn ystod gweithgareddau dysgu. Er enghraifft, wrth ymateb i her, mae disgyblion hŷn yn mireinio dewisiadau geiriau i wella ansawdd eu hysgrifennu. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u cryfderau ac yn deall beth mae angen iddynt ei wneud i wella fel dysgwyr. Maent yn croesawu her, er enghraifft pan ofynnir iddynt gynnwys nodweddion mwy cymhleth yn eu cyflwyniadau digidol, ac yn cymhwyso'u medrau â lefelau priodol o annibyniaeth, yn gyffredinol, wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, oherwydd

y ffordd y mae dysgu wedi'i drefnu yn y dosbarth ar gyfer disgyblion iau, maent yn methu cyfleoedd i wneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae disgyblion yn deall pwysigrwydd dilyn ffordd iach o fyw. Maent yn dewis bwydydd iach. Er enghraifft, maent yn bwyta ffrwythau amser byrbryd ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd ychwanegol i fod yn egnïol ar ôl yr ysgol trwy ymuno â gweithgareddau chwaraeon traddodiadol. Maent yn falch o gynrychioli eu hysgol mewn twrnameintiau chwaraeon lleol.

Trwy eu gwaith cwricwlwm, mae disgyblion yn dysgu am faterion cynaliadwyedd pwysig, er enghraifft trwy ddysgu am oblygiadau negyddol deunyddiau plastig untro. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o faterion yn gysylltiedig ag amrywiaeth. Maent yn cydnabod bod gan bobl wahanol nodweddion ac y dylid parchu a dathlu'r rhain. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth gref o'u hawliau fel plant ac yn dangos y ddealltwriaeth hon, er enghraifft trwy ddatblygu a gweithio yn unol â fersiwn o bolisi diogelu'r ysgol sy'n addas ar gyfer plant.

Caiff disgyblion ddylanwad priodol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi datblygu rheolau'r ysgol ac yn amlinellu canlyniadau am beidio â glynu wrth y rheolau hyn. Sicrhaont fod pob un o'r disgyblion a'r llywodraethwyr yn cymeradwyo'r rheolau cyn eu rhoi ar waith. Mae grwpiau fel y Cyngor Ysgol, y Gang Eco a'r Criw Cymraeg yn ymgymryd â'u rolau'n ddiwyd, er enghraifft trwy arwain gwasanaethau Cymraeg a threfnu digwyddiadau codi arian i elusennau.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn cynorthwyo bron pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd da a datblygu agweddau cadarnhaol fel dysgwyr yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a rhwng staff a disgyblion yn dda iawn. Maent yn ategu'r diwylliant gweithio cadarnhaol yn yr ysgol ac yn gweithredu fel porth at ddysgu.

Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n dda i ddatblygu cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a difyr sydd wedi'i seilio ar gyfres o themâu fel 'Teithiau' a 'Chwilfrydedd'. Maent yn sicrhau bod disgyblion hŷn, yn benodol, yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar y ffyrdd y mae'r testunau hyn yn datblygu. Mae athrawon hefyd yn cynllunio dilyniannau o wersi'n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg yn raddol, yn unol â disgwyliadau cytunedig sy'n briodol o uchel.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu bro, Cymru a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn archwilio'r pentref a'r ardal gyfagos yn ystod 'teithiau cerdded mewn esgidiau glaw' ('welly walks'). Maent yn dysgu am hanes eu pentref ac yn archwilio'r natur o fewn eu milltir sgwâr, yn aml gan sylwi ar y newidiadau tymhorol o'u cwmpas. Mae ystod eang o ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb fel Labyrinth y Brenin Arthur ym Machynlleth yn ehangu eu dealltwriaeth o ddiwylliant, hanes a threftadaeth Cymru. Mae gweithgarwch yn yr ysgol yn datblygu'r ddealltwriaeth hon ymhellach. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am lên gwerin Cymru trwy astudio chwedlau o'r Mabinogi.

Trwy eu gwaith testun, mae disgyblion yn dysgu am y byd ehangach. Er enghraifft, maent yn dysgu am fudo ac yn cymharu bywyd yng Nghymru â bywyd mewn gwledydd eraill. Maent yn ystyried cyfraniadau dynion a menywod du a fu yn y lluoedd arfog Prydeinig yn ystod rhyfeloedd. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn dysgu am wyliau, yn cynnwys Y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n briodol at ddealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth yng Nghymru a'r byd.

Mae athrawon yn ymestyn y cwricwlwm yn dda trwy gynnal amrywiaeth o dripiau a thrwy wahodd ymwelwyr arbenigol i'r ysgol. Er enghraifft, cynorthwyodd gweithdai diweddar y disgyblion i ddysgu am gymorth cyntaf, technegau achub bywyd a'u cyflwyno i Iaith Arwyddion Prydain.

Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae hyn yn eu galluogi i deilwra'u haddysgu i fynd i'r afael ag ystod eang anghenion y disgyblion. Yn gyffredinol, mae gan athrawon ddisgwyliadau priodol o uchel ar gyfer cynnydd disgyblion. Maent yn adolygu'r cynnydd hwn yn gyson mewn sesiynau dysgu ac yn defnyddio holi'n effeithiol i symud y dysgu ymlaen. Ceir ymagwedd glir at ddarparu adborth y mae disgyblion yn ei ddeall ac yn ymateb iddo'n dda. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw disgyblion yn glir am ddiben eu dysgu a sut mae'n cyd-fynd â'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'r blaen, neu sut bydd yn cyfrannu at eu cynnydd yn y dyfodol.

Mae addysgu ar gyfer disgyblion iau yn sicrhau eu bod yn meithrin eu medrau yn raddol, ac yn cyd-fynd ag ethos dysgu sylfaen yn briodol, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae oedolion yn tueddu i arwain disgyblion trwy dasgau, ac ni chaiff disgyblion ddigon o gyfle i arwain eu dysgu eu hunain, dysgu trwy chwarae na datblygu eu medrau corfforol, er enghraifft yn yr amgylchedd awyr agored.

Mae athrawon yn darparu gwybodaeth werthfawr i rieni mewn adroddiadau blynyddol i sicrhau eu bod yn deall y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud, ac maent yn ymwybodol o'r camau nesaf mewn dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir i ddisgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae'n hyrwyddo lefelau uchel o ymgysylltiad ym mywyd yr ysgol ac yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn hyderus fel aelodau o gymuned yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithiol. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio gydag oedolion yn yr ysgol i helpu teilwra cymorth unigol ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymyrraeth defnyddiol gan gynorthwywyr addysgu'r ysgol. Pan fo'n briodol, mae'r ysgol yn cynnwys yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill, fel therapyddion lleferydd ac iaith, i sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i fynd i'r afael â'u hanghenion unigol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni i adolygu cynnydd eu plentyn a diwygio cynlluniau a darpariaeth, fel y bo'n briodol.

Mae'r ysgol yn rhoi ffocws cryf ar gynhwysiant. Mae staff yn cysylltu â theuluoedd cyn i ddisgyblion ddechrau mynychu'r ysgol er mwyn iddynt allu deall eu hanghenion

unigol, a darparu ar eu cyfer. Ar sail hyn, mae oedolion yn dysgu sut i gynorthwyo disgyblion unigol mewn ffordd gadarnhaol fel bod pawb yn cael profiad braf yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd â rolau arwain. Mae staff yn eu cynorthwyo i ddysgu sut i ddefnyddio'u dylanwad i gynrychioli pobl eraill ac ysgogi newid cadarnhaol. Mae gan y disgyblion hyn rôl weithredol yn eu hysgol ac maent yn ystyried ffyrdd y gallant gyfrannu at eu cymuned a helpu'r ysgol i weithio'n gynaliadwy.

Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn deall bod ganddynt hawliau a chyfrifoldebau fel dinasyddion ac aelodau o gymuned yr ysgol. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion arfer yr hawliau hyn i wella'r ysgol, er enghraifft trwy gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu rheolau'r ysgol. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth, er enghraifft trwy herio rhagdybiaethau yn seiliedig ar ymddangosiad ac archwilio gwahaniaethau yng nghyfansoddiad teuluoedd. Maent yn galluogi disgyblion i ddeall gwerthoedd fel ymddiriedaeth, cyfeillgarwch a chariad, a gweithio yn unol â nhw. Maent yn ystyried y gwerthoedd hyn a'u diben yn eu cymuned ac o fewn y byd ehangach, er enghraifft wrth archwilio beth yw gwir haelioni.

Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgysylltu â diwylliant lleol a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy ymweliadau â theatrau i weld cerddorfa fyw yn perfformio, cadeirlan leol a Gŵyl Y Gelli. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn elwa ar ymweld â lleoedd sy'n adlewyrchu diwylliant poblogaidd, fel Harry Potter World.

Mae'r ysgol yn defnyddio darparwyr allanol yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion, ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu eu medrau chwaraeon, fel rygbi a phêl-rwyd. Mae cyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn digwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon, gan ddyfnhau eu hymdeimlad o gyflawniad a balchder yn eu hysgol. Mae disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn cynyrchiadau, fel cyngherddau a dramâu, ac yn perfformio'r rhain o flaen cynulleidfa, er enghraifft adeg y Nadolig.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn drylwyr ac nid ydynt yn peri pryder. Mae strategaethau i fonitro a sicrhau cyfraddau presenoldeb da yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol ac anogol hynod effeithiol. Mae hi wedi gweithio'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol i roi gweledigaeth ar waith ar gyfer gwella'r ysgol yn barhaus a sefydlu diwylliant cefnogol lle mae disgyblion yn ffynnu. Mae'r gwaith hwn yn cynorthwyo bron pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd cyson gryf fel dysgwyr a chyflawni lefel da o ran lles. Mae'r pennaeth wedi datblygu ethos tîm cryf y mae pob aelod o staff yn cyfrannu ato'n frwdfrydig.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgol gynradd leol arall trwy gytundeb cydweithio. Mae'r pennaeth yn arwain y ddwy ysgol ac yn rhannu ei hamser yn gyfartal rhyngddynt. Mae'r bartneriaeth hon yn strategol ac yn effeithiol. Mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion gael ystod ehangach o brofiadau addysgol, er enghraifft trwy wneud ymweliadau addysgol yn fforddiadwy, ac yn cynyddu cyfleoedd i staff

gydweithio i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Y tu hwnt i'r bartneriaeth hon, mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r clwstwr lleol o ysgolion. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymagwedd ar y cyd, a chynyddol effeithiol, at weithredu agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae gwaith clwstwr hefyd wedi galluogi'r ysgolion i gytuno ar ddisgwyliadau ar y cyd o ran cynnydd disgyblion, er enghraifft trwy amlinellu'r medrau a'r cymwyseddau digidol fydd eu hangen ar ddisgyblion cyn ymuno â'r ysgol uwchradd.

Mae gwaith partneriaeth â rhieni yn hynod fuddiol. Mae rhieni'n gwerthfawrogi cyfleoedd i ddysgu am waith yr ysgol, neu gyfrannu ato, er enghraifft trwy wahodd disgyblion i ymweld â fferm i ddysgu am bwysigrwydd amaethyddiaeth yn y gymuned leol i ddatblygu eu hymdeimlad o berthyn ymhellach. Mae rhieni hefyd yn dylanwadu ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol, er enghraifft trwy helpu i ddylunio fformat yr adroddiad blynyddol y maent yn ei gael am gynnydd eu plentyn. Yn ychwanegol, mae Ffrindiau Ysgol Llanfair Llythynwg (FROGS) yn codi cyllid gwerthfawr i ymestyn profiad ysgol y disgyblion.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd priodol i staff ddatblygu medrau arwain, er enghraifft pan fydd y pennaeth i ffwrdd o'r safle neu i gyfrannu at waith datblygu'r cwricwlwm.

Mae prosesau gwerthuso a gwella'r ysgol yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn cynnwys pob un o'r staff yn y prosesau hyn ac yn sicrhau bod yr ysgol yn rhoi amser, egni ac adnoddau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau cywir. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu newid sy'n fuddiol i ddisgyblion. Er enghraifft, mae gwaith diweddar i wella'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg a mathemategol disgyblion wedi codi lefelau cynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yr ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi datblygu eu cwricwlwm yn ystyriol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r egwyddorion a'r ethos a amlinellir yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn defnyddio cyfleoedd dysgu proffesiynol a phrosesau rheoli perfformiad yn dda i gefnogi gwelliant yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr iau. Mae hyn yn golygu mai megis dechrau datblygu y mae'r amgylchedd dysgu a rôl oedolion fel galluogwyr dysgu.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n briodol at arweinyddiaeth ysgol gyfan, er enghraifft trwy ddatblygu eu polisi diogelu eu hunain. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion o fewn cymuned yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n dda at waith yr ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd lle maent yn cynnal gweithgareddau monitro i ennill dealltwriaeth uniongyrchol o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i ddarparu cymorth a her briodol i'r ysgol. Maent yn cynorthwyo arweinwyr i fonitro a defnyddio adnoddau ariannol, gan gynnwys cyllid grant, yn ddiwyd er budd dysgwyr. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn cyfrannu'n dda at ddiwylliant diogelu trylwyr yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  08/02/2024